



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru • Wales

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2023/24

Medi 2024



Gallwn ddarparu crynodeb o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddeall. Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru • Wales

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2023/24



Cynnwys

- 5 Rhagair
- 6 Rhan 1
- 6 Cefndir
- 7 Amdanom ni
- 8 Ein dyletswyddau o ran y Gymraeg
- 8 Cyfrifoldebau
- 9 Sut gwnaethom ni baratoi'r adroddiad hwn
- 9 Cydymffurfiaeth â'r Safonau
- 10 Rhan 2
- 11 Safonau cyflenwi gwasanaeth
- 14 Safonau llunio polisïau
- 16 Safonau gweithredu

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn sy'n manylu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Yn OGCC, rydym yn llwyr gefnogi'r Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Eleni, gofynnwyd i achwynwyr sy'n siarad Cymraeg sut y gallem wella ein gwasanaeth Cymraeg hyd yn oed ymhellach. Roeddwn yn falch o weld mai'r rhan fwyaf o'r hyn y gofynnwyd amdano oedd gwasanaeth Cymraeg a ddarparwn eisoes. Rydym nawr yn gwneud mwy i hyrwyddo'r gwasanaethau hyn i siaradwyr Cymraeg drwy ein gwefan ddiwygiedig, ein gwaith allgymorth a'r cyfryngau cymdeithasol.

Gwnaethom hefyd adolygu'r ffordd rydym yn asesu effaith ein polisiau a'n gweithdrefnau ar y Gymraeg, i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â chanllawiau arfer da diweddaraf Comisiynydd y Gymraeg ar safonau llunio polisiau. Mae'r asesiad effaith ar yr y Gymraeg yn fwy trwyadl ac yn awr yn cael ei ystyried ar wahân i'r asesiad o nodweddion cydraddoldeb.

Gwnaethom ymateb yn gyflym pan adawodd dau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Gwnaethom fabwysiadu

ymagwedd ragweithiol, gan sefydlu rhaglen arloesol i raddedigion sy'n siarad Cymraeg a bellach mae gennym hyd yn oed mwy o bobl yn gweithio i ni sy'n gallu darparu ein gwasanaethau yn Gymraeg.

Michelle Morris

**Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru
Medi 2024**



Rhan 1

Cefndir



Amdanom ni

Mae gennym dair rôl yn bennaf.



Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.

Gallwn edrych ar y gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru megis cynghorau lleol, Byrddau Iechyd, landlordiaid cymdeithasol ac eraill. Gallwn hefyd edrych ar gwynion am ofal cymdeithasol preifat a gofal diwedd oes, yn ogystal â rhywfaint o ofal iechyd preifat.

Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.

Rydym yn edrych ar gwynion am gynghorwyr mewn cynghorau lleol, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol. Rydym hefyd yn edrych ar gwynion am baneli dros faterion plismon a throseddu. Rydym hefyd yn “berson rhagnodedig” o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd ar gyfer codi pryderon chwythu'r chwiban ynghylch achosion o dorri'r Cod Ymddygiad gan aelodau awdurdodau lleol.



Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Gallwn ymchwilio ar ein liwt ein hunain, hyd yn oed os nad ydym wedi derbyn cwyn. Gallwn hefyd osod safonau cwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru, monitro sut y maent yn ymdrin â chwynion a darparu hyfforddiant iddynt.



Ein dyletswyddau o ran y Gymraeg

O dan ein Deddfwriaeth, mae'n rhaid i ni gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg (y Safonau). Croesawn y Gymraeg, ac rydym wedi ymrwymo i nodau'r Safonau ac i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg.

[Gallwch ddarllen Safonau'r Gymraeg a'n hysbysiad cydymffurfio gyda'n Polisi Iaith Gymraeg ar ein gwefan yma.](#)

Cyfrifoldebau

Ein Tîm Rheoli sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyfeiriad strategol a llywodraethu'r swyddfa. Mae ein Prif Swyddog Gweithredu a'n Cyfarwyddwr Gwella yn sicrhau bod rheoli gweithredol yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a chanllawiau ymarfer da mewn perthynas â'r Safonau.

Ein Tîm Gwella sy'n gyfrifol am y Gymraeg o ddydd i ddydd. Ein Pennaeth Polisi, Cyfathrebu a

Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu ac adrodd ar bolisiau. Gellir cysylltu â nhw i drafod yr adroddiad hwn.

Mae'r holl staff yn derbyn gwybodaeth am ein dyletswyddau a'n hymrwymadau o dan y Safonau a'n Polisi Iaith Gymraeg, ac mae disgwyl iddynt gydymffurfio a chyfrannu fel y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Sut gwnaethom ni baratoi'r adroddiad hwn

Wrth ddatblygu'r adroddiad hwn, defnyddiwyd canllawiau a chyingor gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cymeradwyodd ein Tîm Rheoli yr adroddiad ar 14 Awst 2024.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Rydym yn asesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg bob dwy flynedd, yn unol â'r trefniadau monitro ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u henwi yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2.

Cynhaliwyd ein hasesiad cydymffurfio diwethaf ym mis Awst 2022, a gwnaethom adrodd ar y canlyniadau yn ein Hadroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022/23. Cymerasom gamau i fynd i'r afael ag adborth yn brydlon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, credwn ein bod yn parhau i gydymffurfio â holl Safonau'r Gymraeg. Bydd yr asesiad cydymffurfio nesaf ym mis Awst 2024.

Gwnaethom adolygu'r ffordd rydym yn mesur ein heffaith ar y Gymraeg ac rydym wedi diwygio ein gweithdrefnau asesu effaith i gryfhau'r ffocws ar y Gymraeg.

Rydym yn parhau i bryderu am y niferoedd cymharol isel o bobl sy'n dewis cyfathrebu â ni yn Gymraeg. Gofynnem i achwynwyr Cymraeg eu

hiaith am eu barn am ein gwasanaeth. Dywedodd y rhan fwyaf wrthym eu bod wedi cyflwyno eu cwyn yn Saesneg, er eu bod yn hyderus iawn yn eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg.

Roedd y prif resymau pam eu bod wedi gwneud hyn yn ymwneud â phryderon a oedd ganddynt na fyddai'r gŵyn yn cael ei hystyried mor gyflym a bod eu gohebiaeth â chyrrff cyhoeddus, yn ymwneud â'u cwyn, yn Saesneg. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun ffurfiol.

Rydym yn adolygu'r adborth, ac yn gwneud mwy eleni i hyrwyddo ein gwasanaeth Cymraeg, gan gynnwys cael stondin yn yr Eisteddfodau blynyddol.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut y gellir gwneud cwynion am ein cydymffurfiaeth ar ein [gwefan](#).



Rhan 2

Ein perfformiad yn 2023/24



Safonau cyflenwi gwasanaeth

Defnydd o'n gwasanaethau

Mynegodd defnyddwyr gwasanaeth y byddai'n well ganddynt i ni gysylltu â nhw yn Gymraeg mewn llai nag 1% o'n cwynion yn 2023/24.

Gohebiaeth (Safonau 1-7)

Rydym yn datgan ym mhob neges ebost a throedyn llythyr ein bod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson drwy gynnwys y datganiad yn ein templedi ebost a gohebiaeth safonol ar ein system rheoli gwaith achos ac unrhyw negeseuon ebost a anfonir o'n system ebosti 'Outlook'.

Bydd unrhyw un sy'n ysgrifennu atom yn Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg yn awtomatig.

Caiff ein staff eu cefnogi ynghylch sut i wneud eu llofnod ebost ac ymatebion allan o'r swyddfa yn ddwyieithog, ac os ydynt yn gallu cyfathrebu'n ysgrifenedig yn Gymraeg, darparwyd baner iddynt ei chynnwys yn eu llofnod.

Ffôn (Safonau 8-22)

Caiff bob galwad ffôn ei hateb yn

ddwyieithog, gyda'r cyfarchiad Cymraeg yn gyntaf. Mae ein gwasanaeth ateb galwadau awtomataidd hefyd ar gael yn Gymraeg, ac mae gan alwyr yr opsiwn i ddewis siarad Cymraeg. Y Gymraeg yw'r opsiwn cyntaf bob amser.

Yn 2023/24, 148, dewisodd 148 o alwyr i'n swyddfa y dewis i siarad Cymraeg.

Mae gennym 3 aelod o staff sydd ar gael i ateb y galwadau cychwynol yn Gymraeg ac maent yn gweithio ar rota i sicrhau eu bod ar gael.

Mae staff wedi cael cyfarwyddyd i newid negeseuon peiriant ateb personol fel eu bod yn ddwyieithog. Mae staff wedi cael cyfarwyddiadau a hyfforddiant ar sut i wneud hyn.

Yn ein Timau Derbyn, Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus, Cod Ymddygiad, a Thîm Gwella mae gennym:

- 3 Swyddog Gwaith Achos parhaol sy'n siarad Cymraeg
- 5 Swyddog Ymchwilio sy'n siarad Cymraeg
- 4 Staff sy'n siarad Cymraeg yn cyfathrebu, polisi a chydymffurfio
- 1 Rheolwr Tîm sy'n siarad Cymraeg.



Mae pobl sy'n cysylltu â'n swyddfa ac sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â'u cwyn, yn cael swyddog achos sy'n siarad Cymraeg i gysylltu â nhw yn uniongyrchol. Ar adegau pan fydd pobl yn ffonio rhif uniongyrchol ynghylch cwyn lle nad yw'r person sy'n cael ei ffonio yn siarad Cymraeg, gallwn drosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg i ddelio â'r ymholiad.

Gall pobl sy'n cysylltu â rhifau llinell uniongyrchol ar gyfer ymholiadau eraill, er enghraifft er gwybodaeth am gais am swydd neu dendr, gael eu trosglwyddo i rywun sy'n gallu siarad â nhw yn Gymraeg cyn belled ag y bo rhywun sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol yn gallu darparu'r gwasanaeth sydd ei angen arnynt.

Cyfarfodydd (Safonau 24 - 32)

Lle nad ydym wedi cysylltu ac wedi sefydlu sut y byddai person yn dymuno cynnal cyfarfod, byddwn yn canfod pa iaith yr hoffent ei defnyddio yn y cyfarfod.

Bydd pob cyfarfod mwy a drefnir gennym yn cynnwys cyhoedduswydd, cyhoeddiadau a phapurau cyfarfod 'Cymraeg yn gyntaf', ac rydym yn gwirio gyda'r cyfranogwyr a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg, rhag ofn bod angen gwasanaethau cyfieithu. Pob blwyddyn cynhaliwn gyfres o bedwar cyfarfod seinfwrdd a drefnwyd gennym ym mis Ebrill 2023, ac eto ym mis

Mawrth/Ebrill ar gyfer ein rhanddeiliaid – cynghorau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau cynghori ac eirioli. Gwnaethom eu gwahodd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod os dymunant wneud hynny.

Yn gyffredinol, nid ydym yn cynnal cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd wrth ddarparu ein gwasanaethau, ac felly ni threfnwyd unrhyw gyfarfodydd na digwyddiadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod adrodd.

Cyhoedduswydd (Safonau 33–72)

Lansiom ein gwefan newydd gyda nodweddion ychwanegol i wella hygyrchedd a gwella profiad defnyddwyr. Mae ein gwefan yn ddwyieithog ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob rhyngwyneb a dewislen ar gael yn Gymraeg, a bod dolenni uniongyrchol bob amser o'r Saesneg i dudalennau cyfatebol Cymraeg.

Gwnaethom ddatrys un gŵyn, a dderbyniwyd trwy Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch eglurder gwefan, yn brydlon.

Rydym yn sicrhau bod y cynnwys Cymraeg bob amser yn ymddangos yn gyntaf yn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom bostio 97 o weithiau yn Gymraeg ar Twitter, gyda llawer o'r

postïadau'n cael eu hailadrodd ar LinkedIn a Facebook.

Ar hyn o bryd, dim ond ychydig o ymwelwyr sy'n ymweld â'n swyddfa, ond mae gennym y cyfleusterau hyn:

- Mae ein cyfarchiad drws yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf
- Rydym yn arddangos arwydd yn ein derbynfa sy'n croesawu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r holl staff yn gallu cyfarch pobl yn Gymraeg.

Mae bathodynau ar gael i staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gallu siarad yn Gymraeg ag ymwelwyr.

Caffael (Safonau 72- 76)

Mae ein Polisi Caffael yn datgan ein bod yn croesawu ceisiadau am dendrau yn Gymraeg ac na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg Yn 2023/24, gwnaethom hysbysu dim ond un tendr. Ni chyflwynodd yr un o'r cyflenwyr gais tendr yn Gymraeg.

Hyrwyddo gwasanaethau (Safonau 77 - 80)

Mae ein gwasanaethau cwynion

yn gwbl ddwyieithog. Gwnaethom hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg gan ddefnyddio'r hashnod #DefnyddiaDyGymraeg.

Caiff ein hyfforddiant Safonau Cwynion ei gynnig yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Nid oes unrhyw gorff cyhoeddus wedi manteisio ar y cynnig o hyfforddiant yn y Gymraeg yn 2023/24.

Ar ôl lansio ein logo newydd sy'n cychwyn â'r Gymraeg ym mis Ebrill 2023, rydym wedi diweddarau pob dogfen bolisi gyda'n brand newydd. Mae gan pob adroddiad a dogfen a gyhoeddir y logo newydd a datganiad bod y ddogfen ar gael yn Gymraeg ar y fersiynau Saesneg.



Safonau llunio polisïau

Polisïau a gweithdrefnau newydd neu ddiwygiedig (Safonau 84– 86)

Gwnawn ymdrech gydwybodol i ystyried effeithiau posibl penderfyniad polisi ar y Gymraeg. I sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi, mae gennym y cytundebau canlynol ar waith:

- [Polisi Iaith Gymraeg](#) – sy'n nodi ein dyletswyddau a'n hymrwymadau o ran cydymffurfio â'r safonau llunio polisi. Adolygwyd y polisi yn ystod y flwyddyn flaenorol gyda Chomisiynydd y Gymraeg.
- [Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg](#) – sy'n cynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar wahân ac sy'n anelu at:

rhagweld neu nodi canlyniadau polisi ar unigolion neu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth/ gweithwyr a'u defnydd o'r Gymraeg;

sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cau eu dileu neu eu lleihau i'r eithaf;

gwneud y mwyaf o gyfleoedd i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.

- Gweithdrefn Rheoli Polisi – sy'n sicrhau bod ein holl bolisïau'n gyfredol, yn gyson o ran cyflwyniad, yn cael eu cyhoeddi'n briodol, ac yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae'r Weithdrefn yn nodi'n glir bod yn rhaid i'n holl bolisïau fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod yn rhaid iddynt gael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein Mewnrwyd ac ar y wefan.
- Swyddog penodedig ar gyfer Rheoli Polisi – yn gyfrifol am sicrhau bod y weithdrefn yr Asesiad o'r Effaith a'r Weithdrefn Rheoli Polisi yn cael eu gweithredu'n gywir.
- Ein Grŵp Cydraddoldeb mewnol – i ddarparu cyngor a chymorth i berchnogion polisi sy'n datblygu polisi newydd neu'n adolygu polisi ar faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y Gymraeg.

Cynhaliwyd 8 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisïau yn 2023/24. Nododd y rhan fwyaf effaith niwtral ar y Gymraeg, gan adlewyrchu ein cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg. Nododd 3 effaith gadarnhaol.

O ganlyniad i Dribiwnlys y Gymraeg a ddyfarnodd o blaid Comisiynydd y Gymraeg, mae elfennau o'n gweithdrefnau asesu effaith ar gydraddoldeb wedi'u diwygio i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau arfer da ar safonau llunio polisi.

Mae'r elfen effaith cydraddoldeb a'r elfen o'r effaith ar y Gymraeg bellach wedi'u gwahanu. Caiff hyn ei adlewyrchu yn nheiti y weithdrefn newydd (Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg) ond hefyd mewn adrannau newydd sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg.

Ymgynghoriadau (Safonau 87 - 89)

Yn ystod y flwyddyn, cynhalïom 1 ymgynghoriad allanol ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2023-2026. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys y cwestiynau a ganlyn:

- Pa effeithiau y gallai'r Cynllun Cydraddoldeb arfaethedig ei gael ar y Gymraeg ac, yn benodol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac wrth beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- Sut y gellid hybu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, neu liniaru effeithiau negyddol?

Comisiynu ymchwil (Safonau 91-93)

Nid ydym wedi comisiynu nac wedi cynnal unrhyw ymchwil er mwyn gwneud penderfyniad polisi yn 2023/24.



Safonau gweithredu

Polisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol (Safon 94)

Mae gennym [Bolisi Iaith Cymraeg](#) ar waith, sy'n cyd-fynd â'n dyletswyddau o dan y Safonau. Mae'r polisi yn cynnwys adran sy'n egluro ein dull o ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae ar gael ar yr Hwb (ein mewnrwyd) ac ar ein gwefan gyhoeddus. Gwnaethom adrodd y llynedd bod y polisi wedi'i ddiwygio a'i gytuno ym mis Mai 2023. Ymgynghorom â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod yr adolygiad.

Dogfennau cyflogaeth (Safon 95 - 100)

Gofynnwn i bob cydweithiwr newydd sy'n ymuno â ni ddatgan a hoffai gael unrhyw ohebiaeth a dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth, hyfforddiant, amcanion perfformiad neu gynllunio gyrfa yn Gymraeg neu yn Saesneg. Yn ystod 2023/24, ymunodd 11 o gydweithwyr newydd â'n tîm, 4 ohonynt dros dro. O'r 11 aelod staff, nid oedd gan 10 unrhyw ofynion iaith Gymraeg a dim ond un oedd angen eu slipiau cyflog yn Gymraeg.

Yn y ffurflen gais, gofynnwn i ymgeiswyr a fyddent yn hoffi cael dogfennau yn ymwneud â'r posibilrwydd o gyflogaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Polisiau cyflogaeth (101 - 107)

Mae ein holl [bolisiau adnoddau dynol](#) sy'n ymwneud ag ymddygiad, iechyd a diogelwch, buddion y gweithle, rheoli perfformiad, absenoldeb, amodau gwaith a phatrymau gwaith ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan a'n safle mewnrwyd.

Gweithdrefnau cwynion staff a disgyblu staff (Safon 108 - 115)

Gellir ymgymryd â'n trefniadau [cwyno](#) a [disgyblu](#) yn Gymraeg. Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion yn Gymraeg nac wedi cymryd camau disgyblu yn Gymraeg yn ystod 2023/24.

Technoleg i hwyluso defnydd staff o'r Gymraeg (Safon 116 - 122)

Mae gan pob aelod o staff fynediad at feddalwedd cyfrifiadurol i wirio sillafu a gramadeg Cymraeg.

Mae'r holl staff wedi cael cyfarwyddiadau ar sut i newid gosodiadau iaith ar gyfer y canlynol:

- *Microsoft EDGE*
- Prawf iaith *Microsoft Outlook*
- *Microsoft Windows*
- *Microsoft Office*

- Yr Hwb (tudalen gartref / tudalen newyddion / tudalen polisi)

Mae gennym wefan ar ein Mewnrwyd sy'n cynnwys gwybodaeth am ein proses gyfieithu, mynediad i hyfforddiant Cymraeg, ein dyletswyddau o dan y safonau a gwybodaeth berthnasol arall.

Sgiliau Cymraeg y staff (Safon 123)

Rydym yn cynnal arolwg blynyddol o'n staff ac rydym yn casglu gwybodaeth am lefel sgiliau Cymraeg fel rhan o'r arolwg hwnnw.

Gwelsom ostyngiad yng nghyfran y staff sy'n gallu cyfathrebu'n weddol dda neu'n rhugl yn Gymraeg yn 2023/24. Dywedodd 8% o'n staff mai Cymraeg oedd eu prif iaith – gostyngiad o 14% y llynedd. Gwelsom hefyd leihad mewn rhuglder ar draws yr holl sgiliau Cymraeg.

- siarad: 21% (o gymharu â 26% y llynedd)
- darllen: 24% (o gymharu â 31% y llynedd)
- ysgrifennu: 21% (o gymharu â 26% y llynedd)
- deall: 21% (o gymharu â 32% y llynedd).

Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod 2 aelod neu staff a oedd yn siarad Cymraeg wedi ymddiswyddo neu

wedi ymddeol. Fel swyddfa fach, caiff newidiadau o'r fath effaith fawr. Rydym wedi gwneud cynlluniau i benodi swyddog ateb galwadau dros dro ar benodiad 3 mis yn 2024 i gynyddu nifer y bobl yn ein tîm cwynion cyhoeddus sy'n siarad Cymraeg.

Lansiom hefyd ein Rhaglen Hyfforddi Graddedigion newydd ac rydym wedi hysbysebu am Swyddog Ymchwilio Graddedig sy'n siarad Cymraeg. Mae'r ymateb wedi bod yn addawol a bydd y rhaglen ddatblygu tair blynedd hon yn rhoi cyfle gwych i raddedigion newydd, a fydd hefyd ein helpu i ddiwallu ein hanghenion, yn enwedig mewn perthynas â sgiliau Cymraeg.

Er ein bod yn cadw'r data hwn, ac wedi'i ddadansoddi, oherwydd y nifer fach o staff ar lefelau penodol neu mewn rhai timau, nid yw'n ymarferol i ni rannu data sy'n ymwneud â siaradwyr Cymraeg ar raddfeydd gwahanol neu mewn timau gwahanol heb y perygl o ddatgelu pwy yw'r unigolion a datgelu data personol.

Cefnogaeth hyfforddi a chyfathrebu (Safonau 124 - 131)

Mae sylw i Safonau'r Gymraeg wedi'i gynnwys yn ein rhaglen cynefino (Modiwl 2 – Cyflwyniad i'r Sefydliad). Mae'r holl ddeunydd cynefino ar gael yn Gymraeg ond, hyd yma, ni fu unrhyw



alwad i'w gyflwyno yn Gymraeg.

Rydym yn annog staff i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys yn ystod amser gwaith, ac rydym yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno parhau i wella eu Cymraeg i wneud hynny. Gwnaethom gefnogi 5 cydweithiwr i ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a chyfweiliadau ac wedi sicrhau hyfforddiant ar-lein yn y Gymraeg gan ein darparwr hyfforddiant, IHASCO. Mae hyn yn cynnwys lechyd a Diogelwch. Nid ydym wedi darparu hyfforddiant ar yr elfennau eraill a gynhwysir o dan safon 124 (yn Gymraeg neu Saesneg) yn ystod 2023/24.

Recriwtio (Safon 132 - 136)

Mae ein Polisi Recriwtio a Dethol yn cadarnhau na fyddwn yn cychwyn ar y drefn recriwtio hyd nes y bydd yr angen am sgiliau Cymraeg wedi'i asesu a'i gofnodi. Rydym yn sefydlu'r angen am sgiliau Cymraeg fel rhan o'r gwaith o ddatblygu disgrifiadau swydd unigol a manylebau person, yn seiliedig ar brinder sgiliau ac anghenion o fewn y sefydliad. Rydym yn manylu ar yr angen am sgiliau Cymraeg yn y disgrifiad swydd a'r hysbyseb cyn i'r swydd wag fynd yn "fyw".

Rydym yn hysbysebu ein holl swyddi

gwag yn ddwyieithog ac mae'r hysbysebion yn nodi y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Mae'r holl ddogfennau a gyhoeddir fel rhan o'r pecyn recriwtio yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mae ein ffurflenni recriwtio yn rhoi cyfle i ymgeiswyr nodi a hoffent i'r broses recriwtio gael ei chynnal yn Gymraeg.

Rydym bob amser yn ceisio cyfathrebu â'r ymgeisydd swydd yn eu dewis iaith. Mae hyn yn cynnwys y 'llythyr cynnig'. Yn dilyn adborth gan Gomisiynydd y Gymraeg, rydym hefyd bellach yn sicrhau bod galwadau i roi gwybod i ymgeiswyr llwyddiannus bellach yn cael eu gwneud yn unol â dewis iaith yr ymgeisydd.

Arwyddion (Safon 138–139)

Gan ein bod yn rhentu ein swyddfeydd, nid oes gennym reolaeth dros yr arwyddion allanol parhaol i'n swyddfa. Fodd bynnag, mae pob arwydd dros dro sy'n ymwneud â'n swyddfa yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau.



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru · Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Dilynwch ni ar X: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)